Rebecca Evans AC/AM
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mick Antoniw AC
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

SeneddCLA@cynulliad.cymru

20 Rhagfyr 2019

Annwyl Mick,

Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a'r Cynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygio) 2020

Diolch am eich llythyr ynglŷn â'r pwynt a godwyd yn yr adroddiad a gyhoeddwyd gan y Pwyllgor ar y Rheoliadau uchod. Fe wnaethoch ofyn am esboniad pellach ynghylch pam yr oedd angen enwi'r pŵer galluogi yn y Ddeddf Mewnfudo wrth gyfeirio at erthygl 3 Gorchymyn 2019.

Fel y nodwyd yn yr ymateb cychwynnol gan swyddogion, cyfeiriwyd at y pŵer galluogi oherwydd bod cynsail ar gyfer gwneud hynny, ac i fod yn gyson ag arferion blaenorol yn ymwneud â rheoliadau yr effeithiwyd arnynt gan ymadawiad y DU â'r UE.

Nid yw'n hanfodol cyfeirio at adrannau perthnasol o Ddeddf Mewnfudo 1971 ac ni fyddai eu hepgor yn newid ystyr y ddarpariaeth. Ond, rydym yn ystyried mai mater o ddewis wrth ddrafftio fyddai eu cynnwys ac, fel y nodwyd yn ymateb cychwynnol y llywodraeth, mae cynsail ar gyfer y dull drafftio hwn yn enwedig mewn perthynas â Deddf Mewnfudo 1971. Mae'r Prif Reoliadau yr ydym yn eu diwygio yn cynnwys darpariaeth debyg (cyfeirir at y darpariaethau perthnasol yn yr ymateb cychwynnol). Nid ydym yn deall pam y gallai'r dewis o ddull drafftio yn yr achos hwn fod o bwysigrwydd gwleidyddol na chyfreithiol na pham y gallai arwain at faterion polisi cyhoeddus.

Yn gywir,

Rebecca Evans.

Rebecca Evans AC/AM
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.